Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Drenewydd Gelli-farch

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Drenewydd Gelli-farch yn ysgol hapus, ofalgar a chynhwysol sy'n ganolog i'w chymuned. Rhoddir blaenoriaeth uchel i les disgyblion yn yr ysgol, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac yn gwybod ble i fynd i gael cymorth, os oes ei angen arnynt. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol trwy ei chwricwlwm sydd wedi'i seilio ar werthoedd, ac yn ystod addoli ar y cyd. Mae hyn yn helpu sicrhau bod ymddygiad disgyblion yn rhagorol ar draws yr ysgol, ac maent yn foesgar a chwrtais gyda'i gilydd, gyda staff ac ymwelwyr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sydd efallai'n cael eu heffeithio gan dlodi, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau holi i alw dysgu blaenorol i gof, cadarnhau dealltwriaeth a llywio cyfeiriad dysgu. Mae hyn yn helpu disgyblion i wella a mireinio cynnwys eu gwaith yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu sy'n herio disgyblion yn ddigonol ac yn eu galluogi i feithrin eu medrau yn raddol ar draws y cwricwlwm.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn drylwyr. Mae arweinwyr yn meddu ar ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella. Maent yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i hyrwyddo diwylliant o wella addysgu a datblygu annibyniaeth disgyblion ar lefel sy'n briodol i'w hoedran.

Mae llywodraethwyr wedi ymrwymo'n llawn i lwyddiant yr ysgol ac yn defnyddio'u gwybodaeth a'u medrau i gefnogi a herio'r pennaeth yn bwrpasol. Mae'r pennaeth a'r staff wedi meithrin perthnasoedd gwaith agos â rhieni. O ganlyniad, mae ganddynt hyder yn yr ysgol ac yn gwerthfawrogi'r cymorth y mae'r ysgol yn ei roi i'w helpu i gynorthwyo'u plant gartref.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Parhau i wella cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol ar draws y cwricwlwm

A2 Parhau i wella addysgu i sicrhau bod medrau disgyblion wrth ddysgu'n annibynnol yn datblygu ar lefel sy'n briodol o heriol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2025